# Y PAPUR GWYRDD

Y cylchgrawn sy'n ymgyrchu dros y Ddaear — ein cartref rhyfeddol

# San Steffan yn ein gwthio i beryglu'r Ddaear gyda $CO_2$

**Yr amgylchedd:
Mae modd adfer
— ond gallwn golli hefyd**


Y PAPUR GWYRDD

Rhif 6
Mehefin / Gorffennaf 2008

PRIS: £1

ISSN 1755-3504


Stori'r 'Aflan Briodas' ym Merthyr Tudful



Clod i'r 'Luddites'

Ffarmio Organig

Dod i ddeall *'Permaculture'*

## Y PAPUR GWYRDD

Golygydd: Hywel Davies

217 Vicarage Road,
Treforys, Abertawe
SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost:
ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol gan
Y Papur Gwyrdd Cyf.


**GYDA'R rhifyn nesaf, byddwn yn dathlu Pen-blwydd 1af Y Papur Gwyrdd.**

**Lansiwyd y cylchgrawn amgylcheddol hwn ar faes Prifwyl Sir y Fflint y llynedd, ac edrychwn ymlaen at fod ar faes Prifwyl Caerdydd eleni i nodi'n blwyddyn o dwf.**

**Gwyddom bellach fod cannoedd ohonoch, Gymry Cymraeg ledled y wlad, wedi bod yn falch i glywed am fodolaeth cylchgrawn annibynnol Cymraeg sy'n ymgyrchu o blaid perthynas newydd rhwng pobl a'r Ddaear. Diolch i chi gyd am hynny.**

**Os byddwch yn yr Eisteddfod, dewch i Babell Cyfeillion y Ddaear i gwrdd â ni. Bydd croeso cynnes i chi yno, fel y bu croeso gan y mudiad hwnnw, hefyd, i'r Papur Gwyrdd o'r cychwyn cyntaf.**

**Argreffir Y Papur Gwyrdd yn lleol ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR**

# CYNNWYS


3 Ffermio Organig ac Adnewyddol — y profiad ar Ffarm Tresinwen, Abergwaun

4 Golygyddol: Mae modd adfer — ond cofiwn fod modd colli, hefyd

5 Dathlu *Aflan Briodas* y Glo Brig ym Merthyr Tudful

6 Yr angen am hwb ariannol i'n beicwyr — Dafydd Trystan

7 San Steffan yn gwthio $CO_2$ Cymru — Gordon James

8 Beth yn y Byd yw 'permaculture'? - a 'Llanw a Thrai'

9 Pam rwy'n hapus i fod yn 'Luddite' - Charlotte Davies

10 **Daear-iadur Y Papur Gwyrdd** — be sy' 'mlaen gan garedigion y Ddaear

11 Lluniau Cynhadledd Gymraeg yr Amgylchedd … a mwy










# Y Gyngres Geltaidd
## Cynhadledd Ryngwladol 2008
### 28ain Gorffennaf – 2ail Awst

## Yr amgylchedd naturiol – tuag at ddyfodol Celtaidd cynaliadwy

Bob blwyddyn mae aelodau o'r Gyngres Geltaidd, o'r chwe gwlad, yn dod ynghyd yn un o'r gwledydd i drafod thema benodol ac i ddathlu eu hieithoedd a'u diwylliannau Celtaidd.

**Cynhelir y gynhadledd yng Nghymru eleni, yn Neuadd Pen Bryn, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth.**
**Y siaradwyr yw:**

- **Peter Davies**, Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru
- **Roddy Maclean**, newyddiadurwr a darlledwr yn yr Aeleg (Alba/Yr Alban)
- **Muriel Le Morvan**, newyddiadurwraig gyda Frañs 3 Brest (Breizh/Llydaw)
- **Éanna Ní Lamhna**, Llywydd An Taisce (ymddiriedolaeth genedlaethol Iwerddon) ac Is-Lywydd Cyngor Coed Iwerddon (Éire/Iwerddon)
- **Julie Tamblin**, Transition Lostwithiel (Kernow/Cernyw)
- **Philip Gawne**, Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Fforestydd (Mannin/Ynys Manaw)

**Bydd cantorion a cherddorion o'r gwledydd yn ymuno â ni hefyd a chynhelir dwy gyngerdd yn Aberystwyth yn ystod yr wythnos ynghyd ag ymweliadau â lleoedd diddorol yn y cylch (yn cynnwys y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Machynlleth).**

**Am ragor o fanylion ac am raglen lawn ar gyfer yr wythnos cysyllter ag un o'r canlynol:**

**Cadeirydd: cabangwyn@yahoo.co.uk**

**Ysgrifennydd: 'Arwel', 8 Ffordd y Drindod, Aberystwyth SY23 1LT**

**Trysorydd: 01970 617009**

# Newid i ffermio organig — profi cwymp a chynnydd ar ffarm Tresinwen

**AR yr arfordir hudolus lle disgynnodd y Ffrancod i freichiau llai na chroesawgar menywod Sir Benfro yn 1777, mae Richard Lewis ymhlith y ffermwyr sydd wedi croesawu dulliau organig ac ynni adnewyddol gyda breichiau agored.**

Ond bu raid iddo fe, hefyd, brofi cael ei wrthod, wedi i ffarm laeth Tresinwen, Gwdig, droi'n organig yn 2002:

"Yn syth i ffwrdd, roedd problem," meddai, "Fe gwympodd y gwaelod ma's o'r farchnad organig, a daeth prisoedd ddim nôl lan am dair blynedd.

"Roedd hynny'n anti-climax ar ôl paratoi am ddwy flynedd. Y broblem oedd i ormod ohonon ni droi'n organig yr un pryd.

"Chafodd ein llaeth mo'i gasglu fel llaeth organig tan Chwefror 2005. Aeth rhai ffermwyr 'nôl i fod yn non-organig, ond erbyn hyn mae prisoedd llaeth organig 'nôl lan a dim digon ar gael ar adegau!"


Harbwr Abergwaun


Richard Lewis a phaneli haul Sustainergy ar Ffarm Tresinwen

Sail y mudiad organig yw tyfu bwyd sy'n rhydd o gemegau'r corfforaethau amaethyddol - y gwrteithi synthetig, y chwynladdwyr a'r plaladdwyr a ddaeth wedi'r Ail Ryfel Byd.

Tyfodd wedi i Rachael Carson ddangos mor niweidiol oedd eu heffaith ar bobl a byd natur trwy ei llyfr dylanwadol, **Silent Spring**, ym 1962.

Bu teulu Richard Lewis yn ffarmio Tresinwen ers 1910, felly mae gorfod delio â holl amrywiaeth y byd amaethyddol yn y gwaed.

"Roedd y newid i organig yn eitha' hawdd," meddai, " - llawer o waith papur yn fwy o broblem na dim. Y gwahaniaeth oedd nad oedd modd bellach ddefnyddio gwrtaith nitrogen. Yn lle hynny, ry'n ni'n plannu meillion sy'n cymryd nitrogen o'r awyr ac yn ei roi i'r pridd yn naturiol.

"Mae pob gwrtaith ychwanegol hefyd yn gorfod bod yn naturiol. Er enghraifft, ry'n ni'n cael taenu mwc ma's ar y perci yn ystod yr haf."

Dyw ffermwyr organig ddim yn gwthio cyffuriau antibiotig i wythiennau gwartheg 'chwaith, dim ond wrth ddelio ag anhwylderau.

Ond nid troi'n organig yn unig wnaeth Ffarm Tresinwen, ond hefyd arwain gydag arbed gwastraff ac ynni adnewyddol.

Ronald Lewis, tad Richard, dynnodd sylw'r Cynulliad Cenedlaethol cynnar i'r angen i ail-ddechrau system casglu gorchuddion plastig o'r ffermydd ar gyfer eu hail-gylchu.

Ac ym 1999, dechreuwyd gosod paneli haul i dwymo dŵr ar gyfer y parlwr llaeth.

"Mae hyn wedi talu 'nôl yn gyflym iawn, " meddai Richard Lewis, "Yn ystod yr haf, ry'n ni'n cael dŵr twym am ddim am wythnosau."

Wedyn, yn 2004, codwyd paneli haul i gynhyrchu trydan. Ffarm Tresinwen oedd y cyntaf yng ngorllewin Cymru i gael panel haul domestig gan gwmni Sustainergy, a bellach mae ganddo 20.

"O'n i'n hoffi'r syniad o gael gwres a thrydan o'r haul," meddai, "Bydd e'n cymryd yn fwy hir i gael ein harian yn ôl, ond ry'n ni'n cael tâl am gyflenwi trydan i'r grid."

Mae Richard Lewis yn gweld bod y diddordeb yn nulliau organig ac ynni adnewyddol ar gynnydd.

"Yn '*slow*' bach mae pobl yn ymddiddori mwy," meddai, "Dyw pobl ddim eisiau'r *'hassle'* ond mae prisoedd olew a thrydan yn effeithio ar bawb ac mae tipyn o ddiddordeb ym mudiad lleol y *'Transition Town'*." ▫

► **Rhoddwyd sylw i Tresinwen yn *Soil Association Technical Guides / Making Most of Farm Wastes. Lucy Rees (2005):* www.soilassociation.org**

►**Hefyd: www.sustainergy.net**

## Abergwaun yn paratoi ...

GYDA phris olew yn mynd trwy'r tô, mae Abergwaun, Sir Benfro, ymhlith y nifer cynyddol o drefi ledled Cymru sydd wrthi'n creu canghennau o fudiad Trefi Trawsnewid fel paratoad ar gyfer byd heb olew.

Sefydlwyd *Transition Towns UK* i annog cymunedau i fynd ati i ddechrau datblygu mathau symlach o fyw er mwyn osgoi helbulon yr argyfwng adnoddau sy'n wynebu'r byd.

Dywedodd un o hyrwyddwyr y fenter yn Abergwaun, y cynhyrchydd llysiau a chigoedd organig Tom Latter o Wdig, fod ymateb cadarnhaol wedi bod i'r bwriad i sefydlu cangen leol, a bod 150 o bobl eisoes ar y rhestr bostio.

"Erbyn hyn mae sawl grŵp prosiect mewn bodolaeth," meddai. "Rydym ar fin cytuno ar gyfansoddiad er mwyn cynnig am grantiau ar gyfer gwahanol gynlluniau.

"Mae Grŵp Addysg eisoes yn weithredol — addysg yn yr ystyr eang o newid ffordd o fyw — ac mae ein Grŵp Bwydydd wedi sicrhau presenoldeb ym Marchnad Abergwaun ac yn gwthio i sefydlu rhandiroedd."

Dywedodd Tom Latter ei fod yn besimistaidd o ystyried difrifoldeb y problemau sy'n wynebu'r byd o ran diflaniad adnoddau fel olew.

Ond mynnodd ei fod yn optimistaidd wrth feddwl am yr hyn mae cymunedau'n gallu gwneud wrth iddyn nhw ganolbwyntio ar broblemau gyda'i gilydd.

► **Gwybodaeth am Drefi Trawsnewid: www.transitiontownsuk.org.**

'Dechreuais holi i'r nwyon tŷ gwydr yr oeddwn i fy hunan yn gyfrifol amdanyn nhw. Gwelais fy mod yn achosi llawer, ond hefyd y gallwn wneud rhywbeth amdano. Efallai bod y gwleidyddion yn simsanu, ond roeddwn i'n mynd i leihau f'allyriadau - gwneud fy siâr.'

*Dave Reay yn esbonio sut aeth ati i ysgrifennu llyfr dadlennol 'Climate Change Begins at Home' (Macmillan, 2005)*

GOLYGYDDOL

# Y neges yng Nglyncorrwg — mae modd adfer ... ond mae hi'n hwyr yn y dydd



MYND am dro ar ein beiciau ar bnawn Sul hyfryd o fis Mai grisialodd y neges ddeublyg: oes, mae modd adfer yr amgylchedd, ond, mae hi'n ofnadwy o hwyr yn y dydd.

Wedi bod yn y Cwrdd yr oeddem, gan elwa o gyflwyniad trawiadol o waith Cymorth Cristnogol ar bynciau megis HIV Aids. Clywed hefyd am yr ofnau cynyddol am chwalfa'r trowynt yn Bwrma sy'n gymaint o arwydd o Newid Hinsawdd.

Gosod y beiciau ar gefn ein Honda Civic IMA – gan ddiolch eto ein bod wedi dod ar draws car *'hybrid'* ail-law am bris mor dda – a throi at yr M4.

Diodde' hwnnw am chwe milltir cyn disgyn i dawelwch coediog Dyffryn Afan lle'r oedd llinellau'r cywydd canoloesol mor briodol: 'Pan ddêl Mai a'i lifrau las, i'r irddail i roi'r urddas.'

Ymlaen trwy Gwmafan - gan gofio mai yma y ganwyd Mabon yr Undebwr glo arloesol a'r codwr canu eisteddfodol - trwy Bont-rhyd-y-fen - a chlywed yn y cof atseiniau o Gymraeg hwyliog Richard Burton - at Y Cymer.

Wrth ddisgyn y llethr troellog yno i groesi'r Afan, sylwi ar ddrysau caëdig capel Hebron, lle bu'r llenor Lewis Davies yn gymaint o arwr bro. Cael cip cyflym, hefyd, ar yr hen blac sy'n nodi Eisteddfod Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd ym 1735 yng Ngwesty'r Cymer. Yna, ymlaen a ni i Lyncorrwg i feicio.

I Lyncorrwg. I feicio.

Ydy, mae'n werth gosod y geiriau yna gyda'i gilydd eto, gan eu bod yn ddathliad ynddynt eu hunain o'n gallu i adfer amgylchedd.

Rwy'n ddigon hen i gofio coed brodorol y Cymoedd yn gorfod ymladd i gadw'u lle ar y llethrau dan wasgfa'r tipiau glo, a'r glofeydd yn staenio'r llethrau a glannau'r nentydd.

Cofio hefyd, drasiedi enbyd a chreulon-o-ddiangen Aberfan yn dechrau'r broses o ail-ystyried pwysigrwydd amgylchedd a chymuned, a gweld y tipiau'n graddol ddiflannu a'r coed yn dod yn ôl o ganlyniad.

Pasio llynnoedd pysgota hyfryd ar waelod y cwm cyn cyrraedd Canolfan Beicio Mynydd ardderchog Glyncorrwg a chael cychwyn ar y llwybrau. Ymhen ychydig, cyrraedd pont dros Nant Corrwg - ac yno sylwi ar lendid rhyfeddol y dŵr.

A dyna'n trawodd yn arbennig y diwrnod hwnnw, oherwydd deng mlynedd ar hugain yn ôl y mis hwn, ar fy nhaith gyntaf yn yr Unol Daleithiau, dyna fy syfrdanodd am ddyfroedd afon yn Cherokee ym mynyddoedd Appalachia - y dŵr yn lan fel y grisial. Megis dechrau oedd gwaith glanhau nentydd y Cymoedd, a'u llwydni a'u llwch du oedd yn gyfarwydd imi.



Canolfan Beicio Mynydd a Llynnoedd Glyncorrwg. Harddwch lle bu bryntni'r pyllau glo. *Llun: Cyngor Castell-nedd Port Talbot*



Mwynhau llwybrau beicio dramatig Afan Argoed / Glyncorrwg lle adferwyd difrod y diwydiant glo. *Llun: PlasMerlin Photography*

Ond, lle bu ein 'Cymoedd glo' ymysg ardaloedd mwya' brwnt a haloged y Ddaear, maent bellach ymysg y glanaf.

Oes, mae modd adfer. Ond mae modd twyllo'n hunain hefyd, yn enwedig ar gefn beic ar bnawn hyfryd o Fai yng Nglyncorrwg. Oherwydd, mae gwyddonwyr yn rhybuddio mai gwaethygu, nid gwella, mae amgylchedd y Ddaear, gyda'r atmosffer yn cael ei wenwyno gan nwyon tŷ gwydr fel $CO_2$, y systemau naturiol yn cael eu chwalu, ac adnoddau'n planed yn cael eu llyncu ar garlam.

Mewn adroddiad ysgytwol yn yr **Observer** ar Sul, 11 Mai, er enghraifft, caed rhybuddion bod pysgota diwydiannol, heb ffrwyn arno, yn difa cymaint o bysgod fel bod perygl gwirioneddol y byddant yn diflannu *am byth*. Fel y rhybuddiodd y Dr Tegwyn Harris yn **Y Papur Gwyrdd** diwethaf, rydym mewn perygl o sugno'r bywyd o'r moroedd, gyda chanlyniad enbyd i ddynolryw.

Mae corff gwyddonol y Gymdeithas Frenhinol yn rhybuddio'n ehangach bod twf economaidd a chymdeithasol byd eang yn cael ei wthio 'mlaen yn gyflymach o lawer na'r ymdrechion i amddiffyn amgylchedd ein Daear.

Dyna pam mae Gordon James yn iawn i ddatgan yn groyw yn y rhifyn hwn o'r **Papur Gwyrdd**, nad yw'n ddigon da mai dim ond 'un gydwybod wyrdd' sydd yng Nghabinet Llywodraeth Cymru Un. Mae'r bygythiad i amgylchedd ein hunig blaned yn fater ddylai fod yn pwyso ar gydwybod pob aelod o'r Cynulliad.

Ydy, mae'r gog yn canu ar lethrau gwyrdd Glyncorrwg, mae'r nant yn lan, a'r beicio'n dda. Ond, fel dywed Gordon, dyw hi ddim llai na chywilydd bod diffyg dealltwriaeth ein gwleidyddion o ddifrifoldeb y bygythiad byd eang yn golygu ein bod ni yng Nghymru wrthi'n codi'n hallyriadau $CO_2$, a hynny dan bwysau San Steffan

**Oes, mae modd adfer yr amgylchedd. Ond mae hi'n hwyr iawn yn y dydd. Mae modd colli hefyd** □

**HYWEL DAVIES**

'Rhaid i rywun ddatblygu perthynas gyda lleoliad arbennig, ble mae'r tir yn eich 'nabod, a phrofi bod y coed, y Ddaear a natur yn ymestyn eu cariad a'u goleuni atoch, i wybod bod cymaint y gallwn dderbyn o'r Ddaear, i lenwi'n calonnau a'n heneidiau …'

*Inti Melasquez, Shaman Incaidd ym Mheriw*

# Glo brig brwnt — cam gwag pensiynau BT ...

Y LLYNEDD bu Cronfa Bensiwn BT yn clochdar ar ôl cael ei dewis fel Cronfa Bensiwn Amgylcheddol Orau gwledydd Prydain.

Bellach mae'r honiad hwnnw wedi diflannu dan haenau brwnt o lwch glo afiach o safle brig mwyaf Ewrop yn Ffos y frân, Merthyr Tudful.

Dyma'r safle fydd yn gyfrifol am daflu 30 miliwn tunnell o $CO_2$ i'r atmosffer gan ddwyn gwarth ar enw Cymru fel gwlad amgylcheddol gall.

Cyfeillion y Ddaear Abertawe sy'n haeddu'r clod am ddatgelu'r cysylltiad chwalodd 'gwyrddni' BT.


Hynny, gan mai eu hymchwil nhw sydd wedi dangos bod Cronfa Bensiwn BT yn berchnogion ar gwmni Miller Argent.

Miller Argent yw'r cwmni 'adfer tir' a 'datblygu eiddo' honedig sydd wedi cael caniatad gan Gyngor Merthyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gloddio twll 600 troedfedd o ddyfnder er mwyn rhwygo glo o erwau uchel Ffos-y-frân.

Cawsant y caniatad er bod y cloddio yn dod mor agos a 36 medr at gartrefi – ffaith a fyddai wedi atal y cynllun yn Lloegr a'r Alban.

Bydd safle Miller Argent yn Ffos-y-frân yn cyfrannu mwy nag unrhyw lofa arall yng ngwledydd Prydain at allyriadau Newid Hinsawdd yn ystod y 17 mlynedd nesaf.

Yn sicr, BT eu hunain oedd wedi deialu'r rhif anghywir y tro hwn.



**Safle Glo Brig Ffos y frân: 17 mlynedd, 1000 acer, 10 miliwn tunnell o lo, 30 miliwn tunnell o $CO_2$. Llun: *undercurrents.org***

# ... Dathlu Aflan Briodas Ffos-y-frân

**Ar Sadwrn, Ebrill 5, cynhaliwyd Ffug Briodas ym Merthyr Tudful i brotestio yn erbyn Safle Glo Brig Ffos-y-frân fydd yn amharu ar fywydau pobl y dre am 17 mlynedd. Wele gofnod o'r ddefod.**

## 'PRIODAS A WNAED YN UFFERN'

Byrhad o Saesneg gwreiddiol (iawn) Kelvin Mason

**Y Parchedig Wili o'r Eglwys Fwyngloddio Tragwyddol:** Ym mhresenoldeb Mamon, Gau Dduw cyfoeth a thrachwant; ym mhresenoldeb Llwgrwobrwyo, a Difrodi Amgylcheddol, daethom ynghyd i dystio i aflan briodas *[y gŵr cydnerth hwn]*, Consortiwm Brwnt-Gloddiwr Killer-Argent, *[a'r forwyn ddiniwed hon]*, sef Cyngor Cynffonwyr Merthyr Tudful, i weddïo am fendith Rhodri arnynt, i rannu briwsion o'u platiau ac i ddathlu eu chwantau diddiwedd.

Gonsortiwm Brwnt-Gloddiwr Killer -Argent - a gymerwch chi Gyngor Bradwrus, Gwasaidd, Braidd-yn-Dwp, Cynffonaidd Merthyr Tudful i fod yn wraig i chi? A wnewch ddwyn oddiarni heb ball, ddifrodi ei thirweddau, ei hysbeilio o'i hadnoddau, ac yn y pendraw ei bradychu, gan fod yn anffyddlon iddi tra byddwch ill dau fyw?

**Consortiwm Killer-Argent (yn glafoeri'n ofnadwy):** Gwnaf, gwnaf, gwnaf, gwnaf, gwnaf …

**Y Parchedig Wili:** Cyngor Cynffonaidd Merthyr Tudful - a gymerwch chi Gonsortiwm Killer-Argent i fod yn ŵr i chi? A wnewch roi rhwydd hynt iddo, blygu drosodd er ei fwyn, geisio boddhau pob mympwy ohono, ei guddio rhag cyfiawnder, a bod yn ffyddlon iddo ba mor hir bynnag y dymuna eich defnyddio a'ch cam-drin?



**Y Parch Wili o'r Eglwys Fwyngloddio Tragwyddol**

**Cyngor Gwasaidd Merthyr Tudful:** Gwnaf, wrth gwrs.

*(Consortiwm Killer-Argent yn mynd ati i gofleidio'r briodferch, sef Cyngor Merthyr Tudful, gan adael olion llwch glo ei ddwylo ar ei gwisg wen).*

**Y Parchedig Wili (at y gynulleidfa):** A wnewch chi, daeogion, cynffonwyr, cŵn bach a sebonwyr Consortiwm Brwnt-Gloddiwr Killer-Argent a Chyngor Bradwrus Merthyr Tudful, eu cefnogi a'u cynnal yn eu hundeb ffiaidd a drewllyd nawr ac yn ystod y 17 mlynedd o lygredd, llwch a thwrw lleol sydd i ddod?

**Cynulleidfa:** Gwnawn, ar dy fywyd – a miliynau o fywydau eraill.

**Y Parchedig Wili:** Gonsortiwm Brwnt-Gloddiwr Killer-Argent a Chyngor Slafaidd Merthyr Tudful, rydw i nawr yn eich gwahodd i ddal dwylo ac i wneud eich addewidion, ym mhresenoldeb Mamon a'i weision.

**Consortiwm Killer-Argent:** Rwyf fi, Consortiwm Brwnt-Gloddiwr Killer-Argent, yn dy gymryd di, Cyngor Gwasaidd Merthyr i fod yn wraig imi, i'th gael a'th gam-drin o'r dydd hwn ymlaen; er gwell, ond er gwaeth ar y cyfan; er cyfoethocach (o'm rhan i), er tlotach (o ran tlodion Merthyr a'r byd) … i'th gam-drin a'th dreisio, nes wyf wedi codi'r cyfan o'r glo; yn ôl grymoedd y farchnad. Ym mhresenoldeb Mamon, cymeraf y llw hwn.



**'Killer-Argent' a 'Gwasaidd-Ferthyr' ar drothwy eu Haflan Briodas**

**Cyngor Merthyr:** Rwyf fi, Cyngor Braidd -yn-Dwp Merthyr, yn dy gymryd di, Consortiwm Brwnt Killer-Argent, i fod yn butain-feistr imi, i'm cael ac i gadw gafael arnaf o hyn allan; er gwell, ond ar y cyfan er gwaeth; er cyfoethocach (i chi), er tlotach (pwy sy'n malio?) ... I roi trwyddedau i chi nes eich bod wedi codi'r holl lo ac wedi troi cefn arnom; yn unol â grymoedd y farchnad. Ym mhresenoldeb Mamon, cymeraf y llw hwn.

**Y Parchedig Wili, gan godi pâr o gyffion):** Consortiwm Killer-Argent a Chyngor Merthyr Tudful, gadewch i'r modrwyon hyn fod yn symbol o elw tymor-byr, i'ch atgoffa o'r cytundeb a lofnodwyd gennych heddiw yng ngwaed cymaint o bobl ddiniwed, yn awr ac eto i'w geni, trwy Rodri, ein Harglwydd …

Ac yn awr, Killer … Fe gewch ladd y briodferch!

**Y DIWEDD?**

Mae'r olwynion gwleidyddol yn troi'n rhy araf, medd Dafydd Trystan

# Beicio iach yn haeddu gwariant



**BU'R flwyddyn ddiwethaf yn un hynod o gyffrous i Sustrans, yr elusen seiclo a cherdded.**

Yn yr Hydref bu gwirfoddolwyr allan ar hyd a lled y wlad yn gofyn i bobl gefnogi cynllun *Connect 2* mewn pleidlais gyhoeddus a drefnwyd gan ITV a'r Gronfa Loteri Fawr.

Cynllun oedd hwn i ddatblygu yn sylweddol llwybrau seiclo a cherdded ar hyd a lled Gwledydd Prydain.

Beth bynnag mae dyn yn meddwl am ddosbarthu £50 miliwn o arian cyhoeddus trwy bleidlais boblogaidd, does dim dwywaith y cydiodd y cynllun, a'r amryfal ddarnau lleol ohoni, yn nychymyg pobl.

Gan wynebu cystadleuaeth oddi wrth Brosiect Eden, Fforest Sherwood ac ymgyrch gref ar ran y *Black County*, cynllun *Connect 2* Sustrans a orfu.



Pam felly? Yn sylfaenol dwi'n credu bod y miliynau o bobl hynny sy'n cerdded a seiclo yn feunyddiol ar lwybrau di-draffig, a'r miliynau mwy fyddai'n gwneud pe bai mynediad hwylus i lwybrau o'r fath, wedi codi llais – a hynny mae'n debyg mewn ffordd drefnus am y tro cyntaf.

O brofi pa mor boblogaidd yw Llwybr Taf, sy'n rhedeg o Gaerdydd i Ferthyr Tudful a thu hwnt, mae'n hawdd deall yr angen am ddatblygiad.

Mae'r angen hyd yn oed yn fwy eglur o weld pobl yn y gaeaf yn brwydro gyda thraffig ar ffyrdd a phriffyrdd y brifddinas, a hynny heb fawr ystyriaeth gan gynllunwyr trafnidiaeth y ddinas.



Mi hoffwn feddwl, hefyd, fod y Gwledydd Celtaidd wedi chwarae rhan bwysig ym muddugoliaeth Sustrans: *Connect 2* oedd yr unig brosiect gyda chynlluniau sylweddol yng Nghymru yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn sgil y fuddugoliaeth, gallwn edrych ymlaen yn eiddgar at ddatblygiad 10 o brosiectau ar draws y wlad gan gynnwys Pont y Werin yng Nghaerdydd.

Ond crafu'r wyneb mewn gwirionedd mae'r prosiectau hyn.

Ry'm ni'n dal i weld biliynau yn cael eu gwario er mwyn adeiladu heolydd newydd tra mai briwsion (ar y gorau) sy'n cael eu cyfeirio at lwybrau seiclo a cherdded.

Yn waeth na hynny, hyd yn oed, yw hyn:

- mae cynghorau lleol yn derbyn arian tuag at gynnal a chadw'r ffyrdd fel rhan o'u grantiau blynyddol wrth adeiladu heolydd newydd;
- ar y llaw arall, wrth adeiladu llwybr seiclo a cherdded, ni cheir dim arian ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw!

Mae'r sefyllfa yma yn gwbl anghyson gydag ymrwymiad clir y Llywodraeth i weithredu mewn modd cynaliadwy.

Dyna pam mai *Sustrans* oedd y mudiad cyntaf i gyflwyno cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am LCO, sef trosglwyddiad o bwerau o Lundain i Gaerdydd.

*Gobaith Sustrans yn y pendraw yw cyflwyno deddfwriaeth Gymreig fyddai'n gosod cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i gynnal rhwydwaith o lwybrau di-draffig ar gyfer seiclwyr a cherddwyr.*

Eisoes mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cynnal y rhwydwaith ffyrdd. Ond does dim cyfrifoldeb yn yr un modd i ofalu am seiclwyr a cherddwyr.

Mewn oes o newid hinsawdd a phryderon cynyddol am afiechyd sy'n gysylltiedig gyda diffyg ymarfer, dyma'r union fath o gynnig all wneud gwahaniaeth ymarferol.

**Does ond gobeithio fod y gwleidyddion yn ddigon hirben i gefnogi menter o'r fath** ☐

**DAFYDD TRYSTAN**

► *Mae Dafydd Trystan yn seiclwr brwd (ond araf!), ac yn aelod o fwrdd ymgynghorol Sustrans Cymru. Yn gyn-Brif Weithredwr Plaid Cymru, mae bellach yn Gyfarwyddwr Mantais, Addysg Brifysgol Cyfrwng Cymraeg.*

**'Pan welaf oedolion ar gefn beic, ni anobeithiaf am ddyfodol dynoliaeth' - H.G.Wells**

# Gormod o gig dagith ... y byd?

**CODODD 'gynhyrchu' cig ledled y byd yn ddramatig o'r 130 miliwn tunnell yn y 1970au hwyr i 230 miliwn tunnell yn y flwyddyn 2000.**

A'r newyddion drwg i'r Ddaear yw bod codi gwartheg ymhlith gweithgareddau mwya' niweidiol amaethyddiaeth.

Mae gwartheg yn achosi mwy o niwed amgylcheddol trwy or-bori, erydu tir, creu anialdiroedd a datgoedwigo trofannol nag unrhyw rywogaeth arall (heblaw am bobl) - a hynny heb son am eu hallyriadau o nwyon a thail niweidiol.

Pryder Asiantaeth Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig yw y bydd y niwed i'r amgylchedd yn dyblu rhwng nawr a 2050 oherwydd twf ein chwant i fwyta cnawd anifeiliaid.

A'r eironi ynghanol ein hargyfwng bwyd cynyddol yw bod gwartheg yn bwyta llawer o'r grawn fyddai'n gallu arbed bywydau miloedd di-ri' o bobl er mwyn creu cig i'r Gorllewin (ac yn gynyddol i'r Dwyrain).

Meddai George Monbiot o Fachynlleth yn y *Guardian* (Ebrill 15, 2008): 'Yr unig ateb rhesymol i'r cwestiwn o faint o gig y dylen ni fwyta yw cyn lleied â phosibl. Gadewch inni ei neilltuo - fel gwnaeth y rhan fwyaf o ddiwylliannau tan yn ddiweddar - ar gyfer achlysuron arbennig.'

## Angen Cabinet gwyrdd, nid 1 llais!

# ‘Cywilydd’ wrth i $CO_2$ Cymru godi — er y bygythiad i’r Byd

**DANGOSODD adroddiad diweddar gan ymgynghorwyr rheoli blaenllaw McKinsey fod 70 y cant o’r mesurau sydd eu hangen i atal newid hinsawdd catastroffig eisoes yn gyfarwydd i ni ac y byddai chwarter ohonynt yn arbed arian.**

Mae hyn yn debyg i adroddiad a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear gan Ganolfan Tyndall am Newid Hinsawdd ym Mhrifysgol Manceinion.

Dangosodd yr ymchwil sut y gellid torri allyriadau carbon deuocsid yn y DU o 70 y cant erbyn 2030 yn bennaf gan ddulliau cyfarwydd, fel twf mawr mewn ynni adnewyddol a gwell effeithlonrwydd ynni.



Jane Davidson: ein hunig lais gwyrdd yn Nghabinet Llywodraeth y Cynulliad?

Nid yn unig ydy’r atebion sydd eisoes ar gael yn rhwydd, ond mae llawer o arweinwyr gwleidyddol y byd bellach yn cydnabod bod newid hinsawdd yn fygythiad enfawr i oroesiad gwareiddiad ar y blaned hon a bod rhaid gweithredu.

*Yng Nghymru, mae ein llywodraeth glymblaid ifanc wedi arwain yn fyd eang trwy anelu at dorri allyriadau carbon deuocsid o 3 y cant y flwyddyn o 2011 yn y sectorau lle mae pwerau wedi’u datganoli, gan gyd-fynd a’r Cynnig Newid Hinsawdd wreiddiol.*

Wrth i’r dystiolaeth wyddonol ynglŷn â newid hinsawdd achosi mwy a mwy o bryder, cawn syniad o’r pwysau trwy edrych ar waith Adran Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth y Cynulliad.

Mae polisïau mentrus yn cael eu cynnig a fyddai, erbyn 2025, yn gweld Cymru’n ailgylchu 70 y cant o’i gwastraff trefol ac yn cwrdd â’i holl alw am drydan o ffynonellau ynni adnewyddol.

Ac fe allai’r datganoli a ddisgwylir cyn bo hir ynglŷn â rheoliadau adeiladu alluogi Cymru i arwain y DU wrth adeiladu tai ynni-isel.

Rhaid i lawer o’r clod am hyn fynd i’r Gweinidog sy’n gyfrifol, sef Jane Davidson, sydd wedi gosod newid hinsawdd yn gadarn ar ben ei rhestr weithredu.

Mae hi hefyd wedi gwrthsefyll clochdar anwybodus yr amheuwyr newid hinsawdd a’r gwrthwynebwyr ynni gwynt sydd mor aml yn rheoli colofnau llythyr ein papurau newydd cenedlaethol a lleol.

Mae’r ffaith bod y Gweinidog wedi cyfeirio at ei hun fel “cydwybod wyrdd y cabinet”, ar y llaw arall, yn achos pryder.

Os yw Cymru i arwain o ddifrif gyda’r chwyldroad ynni gwyrdd yn yr un modd ag yr arloesodd gyda’r chwyldroad diwydiannol, mae angen cabinet llwyr wyrdd arnom ac nid un Gweinidog gwyrdd yn unig.

**Yn anffodus, ceir digon o dystiolaeth bod Cymru, er y rhethreg werdd, yn llwyr ar gyfeiliorn.**

Y symbol gorau o hyn, efallai, yw penderfyniad cywilyddus Llywodraeth y Cynulliad - yn ôl pob sôn dan bwysau San Steffan - i ganiatáu safle glo brig Ffos-y-frân ym Merthyr Tydfil, ond llathenni o gartrefi pobl.

Bydd glo Merthyr yn bwydo ffynhonnell lygredd unigol fwyaf Cymru, pwerdy Aberddawan, sydd newydd dderbyn trwydded i gynhyrchu mwy gan allyrru 3 miliwn tunnell ychwanegol o garbon deuocsid pob blwyddyn.

Dim ond pigyn y mynydd iâ yw hyn.

Ym Mhenfro, cyflwynwyd cais am bwerdy LNG mawr fydd yn allyrru 6 miliwn tunnell o $CO_2$ yn flynyddol ynghyd â gwres gwastraff cyfystyr â hanner angen trydanol Cymru.

## Dim gobaith newid cwrs?

Gyda cheisiadau am bwerdai eraill, gwelwn gynnydd enfawr mewn allyriadau $CO_2$ yng Nghymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae’n ymddangos bod atebion sylfaenol, e.e. CGP (cyfuniad gwres a phŵer), fel petai’n anghyfleus i’r *juggernaut* economaidd confensiynol sy’n ein gyrru i ymyl y dibyn hinsawdd.

**A thra bod gyda ni ond un “cydwybod wyrdd” yn y cabinet Cymreig, a llaw San Steffan yn llywio’n polisi ynni, does fawr o obaith y cawn newid cwrs**



GORDON JAMES
Cyfarwyddwr
Cyfeillion y Ddaear Cymru



‘Llaw San Steffan yn llywio’n polisi ynni’

Gan GORDON JAMES

# Beth ar y Ddaear yw 'permaculture'?

CYHOEDDI TERM CYMRAEG NEWYDD

**DYW'R enw *'Permaculture'* ddim yn un sy'n denu ymateb cadarnhaol ac awydd i wybod mwy.**

Serch hynny, mae'r syniadau a'r gweithgarwch y tu ôl iddo, o ran addasu ein ffordd o fyw i fod yn fwy caredig i'r Ddaear, yn cael eu defnyddio a'u dysgu mewn dros 100 o wledydd o dan amodau tywydd a diwylliannol gwahanol iawn.

Yn wir, derbynir bod y syniadau mor ddylanwadol bellach fel bod Uned Safoni Termau a Chyfieithu Bwrdd yr Iaith Gymraeg newydd fathu term Cymraeg amdanynt.

Gall **Y Papur Gwyrdd** gyhoeddi mai **'permaddiwylliant'** yw'r term newydd hwnnw.

Yng Nghymru, mae Gardd Goedwig Prifysgol Bangor yn Henfaes, Bangor, yn dilyn dulliau permaddiwylliant, a dyna fydd sail gweithgarwch Pentref Ecogyfeillgar Lamas sydd i'w greu, os ceir caniatâd Cyngor Sir Benfro, ger Crymych.

Datblygwyd y syniadau yn gyntaf yn y 1970au gan ddau ŵr o Awstralia, sef Bill Mollinson a David Holmgren, gyda *'permanent agriculture'* yn wraidd i'r enw a fabwysiadwyd.

*Hanfod syniadau arloesol Mollinson a Holmgren am bermaddiwylliant oedd creu mathau ecolegol o fyw – yn ein cartrefi, gerddi, cymunedau a busnesau.*

Roeddent yn dadlau bod modd gwneud hynny trwy gydweithredu gyda - yn lle gweithredu yn erbyn - natur, er mwyn gofalu am y Ddaear a'i phobl.

Yng ngeiriau Graham Bell yn ei lyfr **'The Permaculture Way'** (Permanent Publications ISBN 1 85623 0287): 'Ffordd yw permaddiwylliant o drefnu bod eich bywyd yn hapus a llewyrchus. Rydych yn cyrraedd eich anghenion chi eich hun heb wneud bywyd unrhyw un arall yn llai pleserus.'

Nod canolog permaddiwylliant yw ceisio sicrhau y bydd y Ddaear yn parhau'n gartref i'n plant yn lle cael ei dinistrio ar garlam trwy fod yn ysglyfaeth i gorfforaethau a llywodraethau a'u llygaid ar elw tymor byr.

Y ddadl waelodol yw ei bod hi'n bosibl, trwy feddwl yn ofalus ynglŷn â sut rydym yn defnyddio'n hadnoddau, i gael llawer mwy allan o fywyd trwy ddefnyddio llai.

Trwy ddulliau permaddiwylliant anelwn at fod yn fwy cynhyrchiol am lai o ymdrech, gan fedi manteision i'n hamgylchedd, i'n hunain ac i genedlaethau'r dyfodol.

Yn ymarferol, mae permaddiwylliant yn delio â sut i dyfu bwyd, adeiladu tai a chreu cymunedau, gan ar yr un pryd gwtogi ar yr effeithiau ar yr amgylchedd.

Dywed y llenor Emma Chapman:

**"Y thema ganolog iddo yw creu systemau dynol sy'n ateb anghenion dynol ond trwy ddefnyddio llawer o elfennau naturiol, gan dynnu ysbrydoliaeth o systemau ecolegol naturiol."**

► *Am, fwy o wybodaeth:*
*www.permaculture.org.uk*

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR — Crynodeb 2 fis

### EFFAITH MORGLAWDD

APWYNTIODD Llywodraeth San Steffan gwmni Americanaidd Parsons Brinckerhoff i asesu effaith amgylcheddol codi morglawdd anferth ar draws Môr Hafren. Cyfiawnhad y cynllun, fyddai'n costio £15 biliwn, yw creu trydan adnewyddol o lif y môr. Ond bydd y morglawdd hefyd yn cario traffordd - a thrafnidiaeth gynyddol - i ganol Bro Morgannwg. Dros gyfnod o 10 mlynedd, byddai angen symud 18 miliwn tunnell o raean a thywod i baratoi gwaelod y môr, a defnyddio 13 miliwn tunnell o raean a choncrit i godi'r morglawdd ei hun. *[Mai 6]*

### CLOD I FFERMYDD BACH

ASTUDIAETH gan y Cenhedloedd Unedig yn dangos mai ffarmio traddodiadol yw'r ateb i broblem prinder bwyd y byd ac nid GM y corfforaethau mawr. Mae **Asesiad Rhyngwladol Gwyddor Amaethyddol** yn ffrwyth ymchwil 400 o wyddonwyr gyda chytundeb dros 50 o lywodraethau. Datgelwyd methiant dulliau amaeth diwydiannol. Y neges ganolog yw mai ffermydd bychain a dulliau amaeth ecolegol, organig, yw'r ffordd orau i ddelio a'r argyfwng bwyd presennol ac i ymateb i effeithiau Newid Hinsawdd. *[Ebrill]*

### CORWYNT BWRMA

DIFRODODD storm eithafol rhannau o Bwrma. Achosodd corwynt i don hyd at 20 troedfedd o uchder lifo dros ardaloedd glan môr. Ofnir bod cymaint a 200,000 o bobl wedi marw a dros filiwn o bobl yn ddigartref. *[Mai 3]*

### EGLWYSI GWYRDD

CYHOEDDWYD **'Pecyn Amgylcheddol'** gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Danfonir y pecyn amrywiol a manwl allan i tua 450 o gapeli gan gynnig arweiniad ar sut y gall eglwysi'r enwad fod yn flaenllaw yn yr ymgyrch i warchod amgylchedd y Ddaear. *[Mai]*

### YR HEN YN DIODDE'

MAE pobl hŷn ar incwm isel yn diodde' wrth i siopau bwyd bychain gau ynghanol trefi o ganlyniad i dwf archfarchnadoedd. Canlyniad prinder siopau cyfleus yw afiechydon a safon byw isel. *[Ymchwil Prifysgol Gorllewin Ontario, International Journal of Health Geographics, 18 Ebrill, 2008]*

### O'R TWR IFORI ...

HONIAD rhyfeddol athro economeg o Brifysgol Surrey yng Nghaerdydd: "Mae lle i amau'r gred gyfredol bod newid hinsawdd ar gerdded ac y bydd yn cael effeithiau cymdeithasol ac economaidd niweidiol." Rhoddwyd pennawd mawr iddo yn y **Western Mail**: *'Prophets of doom may harm profits of our economy.'* Ond yr Athro Colin Robinson yn derbyn bod ei amheuon yn mynd yn 'groes i'r graen gwyddonol.' *[25 Ebrill]*

### PRINDER WRANIWM

"YN groes i honiadau'r diwydiant [niwclear], yr her fwya' i'r adfywiad niwclear yw'r cwestiynau sydd heb eu hateb ynglŷn â chost a'r prinder wraniwm sy'n prysur nesáu." *[Cyn-Weinidog Amgylcheddol y DU, Michael Meacher, Guardian, 7 Mai]*

### CAIS AM BWERDY LNG

CYFLWYNWYD cais i godi pwerdy LNG 2000MW ym Mhenfro. Wrth ei wrthwynebu, dywedodd Cyfeillion y Ddaear y byddai'r pwerdy'n allyrru tua 6 miliwn tunnell o $CO_2$ y flwyddyn gan wastraffu digon o wres i gynhyrchu hanner defnydd Cymru o drydan. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn gwrthwynebu'r cynllun ar sail y niwed i fywyd gwyllt y Cleddau. San Steffan sydd i benderfynu ar y cais.

### CYNHADLEDD GYMRAEG

CYNHALIWYD y gynhadledd wyddonol Gymraeg gynta' ar yr amgylchedd ers y 1980au yn Llandrindod. Darlithoedd a gweithgorau gwerthfawr i tua 80 o gynadleddwyr — yn fyfyrwyr, academyddion a chynrychiolwyr asiantaethau amgylcheddol. *[Ebrill14-15]*

### GLO 'GLÂN' - NAGE!

"Mae'n ymddangos erbyn hyn nad yw'r datblygiadau mewn glo 'glân' yn unol â'r hysbysebion ... fydd technoleg dal carbon ddim yn barod am fwy nag ugain mlynedd." *[Golwg, Ebrill 3 ].*

## PARDDUWYD 'LUDDITES' LLOEGR — OND ONID PETH CALL YW RHOI POBL O FLAEN TECHNOLEG?

# Pam rwy'n falch i fod yn Ludiad



**Gan DR CHARLOTTE A. DAVIES**

**Uwch Ddarlithydd yn Adran Gymdeithaseg ac Anthropolog, Prifysgol Abertawe, a chyd-gyhoeddwr Y Papur Gwyrdd**



'Arweinydd' y Ludiaid ym 1812

**BU fy ngŵr a minnau'n byw yn yr Unol Daleithiau am dair blynedd yng nghanol y 1980au.**

Un noson wrth fwynhau pryd o fwyd yng nghwmni nifer o ffrindiau, daeth i'r amlwg nad oedden ni'n berchen ar *Video Cassett Recorder*.

Ymateb un fenyw, wrth godi'i haeliau, oedd: *"Are you Luddites?"*

Ar y pryd, fe wnaethon ni gymryd y cyhuddiad o fod yn *'Luddites'* fel sarhad – gan brotestio nad oeddem yn wrth-dechnoleg, dim ond yn methu â fforddio VCR.

**Ond erbyn heddiw, rydym yn edrych yn ôl ar y cysylltiad gyda'r Ludiaid gyda chryn dipyn o foddhad.**

Mae mudiad y Ludiaid, oedd yn protestio yn erbyn diwydiannu yng ngogledd Lloegr yn nechrau'r 19eg Ganrif, wedi cael cyhoeddusrwydd hynod o anffafriol.

Roedd y barnwr ddedfrydodd 17 ohonynt i'w crogi ym 1813 wedi'u portreadu fel grŵp treisiol difeddwl oedd yn dinistrio peiriannau oedd yn gwneud cyfraniad cwbl angenrheidiol at lewyrch diwydiannol y wlad.

Yr eironi yw nad oedd y Ludiaid yn fudiad afreolus, adweithiol; ar y cyfan roeddent yn ddisgybledig a threfnus.

Ac mae haneswyr wedi dadlau nad oeddent yn protestio yn erbyn y peiriannau fel y cyfryw ond yn erbyn y newidiadau a ddaeth yn sgil y peiriannau newydd.


Er enghraifft, roeddent yn feirniadol o'r amodau gwaith oedd yn cynnwys defnydd llawer ehangach o blant a menywod mewn ffatrïoedd.

Yn fyr, roedd y Ludiaid yn ceisio gwrthsefyll y gyfundrefn economaidd *laissez-faire* oedd yn cael ei wthio mor sydyn ar bobl gwledydd Prydain.

*Serch hynny, mae'r portread negyddol ohonynt wedi cael ei ddefnyddio'n hynod o effeithiol ers hynny yn erbyn unrhyw un sy'n codi cwestiynau ynglŷn â rôl technoleg yn ein cymdeithas gyfoes.*

Yn eu llyfr *Times of the Technoculture*, mae'r cymdeithasegwyr Kevin Robins a Frank Webster yn rhoi sawl enghraifft o'r 1970au ymlaen o wleidyddion a diwydianwyr sy'n codi'r bwgan o *'Luddism'* bob tro y mynegir pryder am effeithiau cymdeithasol wrth i dechnoleg wybodaeth a chyfathrebu ddatblygu.

Bu'r cyhuddiad yn ddigon ynddo ei hun i roi taw ar unrhyw wrthwynebiad.




Ers tro, does dim rhaid i wleidyddion a byd busnes y 'sefydliad' ateb dadleuon penodol ynglŷn ag effeithiau annymunol technoleg newydd neu 'globaleiddio': cafodd Ludiaeth ei droi'n symbol grymus o agwedd 'ffôl ac anobeithiol', sef ceisio gwrthsefyll 'Cynnydd' trwy reoli twf technoleg yn ein bywydau.

Yn cuddio y tu ôl i'r cyhuddiad hwn mae syniadau eitha' peryglus sef bod 'Cynnydd' yn anochel, mai dim ond un ystyr sydd iddo, a bod technoleg yn foesol niwtral ac yn sail i 'Gynnydd'.

*Ond does dim un o'r rhain yn wir: Gellir diffinio 'Cynnydd' yn nhermau gwerthoedd cymdeithasol, tegwch economaidd a chynaliadwyaeth yn lle Cynnyrch Ariannol Domestig (GDP), elw a phrynwriaeth.*

Mae'r anthropolegydd Immanuel Wallerstein wedi cynnig dehongliad o gyfnod cychwynnol y gyfundrefn gyfalafol sy'n gwadu ei fod yn cynrychioli 'Cynnydd' dynol.

Yn hytrach, mae'n gweld cyfalafiaeth fel firws oedd yn cael ei gadw dan reolaeth yn llwyddiannus gan y rhan fwyaf o gymdeithasau.

Ond yn y Gorllewin, am gyfnod cymharol fyr, doedd yr hyn mae Wallerstein yn cyfeirio atyn nhw fel *anti-toxins* ddim ar gael, ac ers hynny mae system ecsploitiol cyfalafiaeth wedi profi'n anodd ei ffrwyno.

Mae'r syniad o 'Gynnydd' sy'n gwawdio Ludiaeth yn gysylltiedig yn agos iawn â thwf y system gyfalafol, ac mae technoleg newydd yn gwasanaethu'r system hwnnw.

Yn benodol, yn y degawdau diweddara' mae technoleg wybodaeth a chyfathrebu wedi bod yn sail gwbl angenrheidiol i ddatblygiad cyfalafiaeth *global* sy'n achosi cymaint o lanastr ledled y byd.

Diolch byth, felly, am barhad y gwrth-wenwynau – sef y mudiadau cymdeithasol ymgyrchol, gyda'r mudiad amgylcheddol yn ganolog yn eu plith.

*Dyma fudiadau sy'n ddigon hyderus i ymgyrchu yn erbyn y math o 'Gynnydd' mae cyfalafiaeth fyd-eang yn ei gynnig a chymaint o bleidiau gwleidyddol yn ei dderbyn yn ddi-gwestiwn.*

Dyma'r mudiadau hynod werthfawr sy'n gwrthod derbyn technoleg newydd heb edrych yn ofalus ar ei heffeithiau cymdeithasol a'i goblygiadau moesol.

Fel gwnaeth y Ludiaid.

**Oes, mae angen i ni i gyd droi yn *'Luddites'* meddylgar – er mwyn dyfodol y blaned** ◻

**MAE rhith dechnolegau'n creu'r cyflwr cyfoes o 'ddryswch cyffredinol' sy'n golygu 'tranc trwy ddryswch, tranc trwy syllu ar sgrin ble mae pethau nad ydym yn eu byw, ac na allwn fyth eu byw, yn pasio heibio.' -** *Cornelius Castoriadis*

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## Gweithgarwch Moelyci

MAE croeso mawr i bawb ymuno a gweithgareddau amrywiol Canolfan Amgylcheddol Moelyci, Lon Felin Hen, Tregarth, Bangor.

Yn benodol, cynhelir Dyddiau Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth ym Moelyci ar y dyddiadau canlynol yn ystod Mehefin / Gorffennaf: Mercher, 4 Mehefin; Sul, 8 Mehefin; Mercher, 18 Mehefin; Mercher, 2 Gorffennaf; Mercher 16 Gorffennaf; Mercher, 23 Gorffennaf; Mercher, 30 Gorffennaf.

Dyma gyfle i gymryd rhan mewn gwaith cadwraeth tymhorol a chynnal arolygon byd natur a bywyd gwyllt. Angen hen ddillad cynnes, dillad dal dŵr, esgidiau mawr neu welingtons, pecyn bwyd. Darperir te a bisgedi. Bydd y gweithgarwch dan arweiniad yr ecolegydd John Harold. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01248 602793, neu ewch ar wefan www.moelyci.org



I GOFIO AM DEULUOEDD GALARUS BWRMA A TSIEINA



## TANYSGRIFIO

**Os nad yw'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop leol., croeso i chi danysgrifio. Sieciau am £6 am 6 rhifyn (croesewir cyfraniadau ychwanegol i helpu gyda chostau postio) at: Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

## HYSBYSEBION

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@ btinternet.com**

## Marchnad newydd

BYDD Marchnad Gymunedol newydd yn cael ei lansio ym Mhontarddulais ar ddydd Mercher, 9 Gorffennaf, i'w chynnal yn Sefydliad y Peirianwyr.

Bydd y farchnad yn fisol, rhwng 9.30am- 12.30 ar bob 2ail ddydd Mercher. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Catherine Lewis: lewis395@btinternet.com.

## Wythnos y Beic

BYDD seiclwyr o bob rhan o Gymru yn anelu am Gaerdydd i gynnal rali tu allan i'r Senedd fel rhan o Wythnos y Beic, rhwng 14 a 22 Mehefin.

Y nod yw gwasgu ar Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i fuddsoddi mwy o arian mewn beicio nid yn unig fel gweithgarwch hamdden ond fel modd o deithio.

Wrth reidio bydd y seiclwyr yn dysgu am weithgarwch amgylcheddol cymunedol, gan gynnwys cwrdd a phobl Merthyr Tudful sy'n protestio yn erbyn Safle Glo Brig mwyaf Ewrop sy'n cael ei ddatblygu gyda bendith Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.

► Gellir cael mwy o wybodaeth am Wythnos y Beic ar wefan www.bikeweek.org.uk .

## Alawon Cilycwm

BYDD Ffarm Glangwenlais yng Nghilycwm ger Llanymddyfri yn atsain gydag alawon cenhedloedd amrywiol eto ar benwythnos 11—13 Gorffennaf.

Yn ystod tridiau Gŵyl y Cenhedloedd Bychain, clywir grwpiau ac unigolion megis Steve Eaves, Sian James a Fflur Dafydd o Gymru, ynghyd a myrdd o leisiau o wledydd eraill gan gynnwys Ciwba, Bwlgaria, Slofacia, Iwerddon, yr Alban, Madagascar ac ati.

A gweithdai. A myfyrio. A hwyl

► **Gwybodaeth: info@smallnations.co.uk; ffôn 01550 720321**

## Cymraeg Werdd

► BYDD Rhiannon Rowley, Abaca Organics, yn annerch cyfarfod i drafod y Gymraeg a'r mudiad Trefi Trawsnewid yn Abergwaun ar nos Iau, 19 Mehefin. Cynhelir y cyfarfod fel rhan o weithgarwch Grŵp Trefi Trawsnewid Abergwaun yn Neuadd y Santes Fair am 7.30pm. **Mwy o wybodaeth:tom.latter@btopenworld.com**

► 'PWY Fydd Yma 'Mhen Can Mlynedd?' fydd teitl hwyliog noson gymdeithasol Gymraeg sydd i'w chynnal gan Grŵp Trefi Trawsnewid Llandeilo yn ystod Mehefin. Y Parch Ddr Patrick Thomas fydd yn rhoi cychwyn i sesiwn o straeon cefn gwlad a chanu yng Ngwesty'r Angel, gyda gwin yn gymorth i'r cof a'r cymdeithasu.

**Manylion dyddiad: Rhiannon Rowley — rhiannon54@hotmail.co.uk; ffôn 01269 598491**

## Pentref Lamas

DISGWYLIR y bydd Adran Gynllunio Cyngor Sir Benfro yn ymateb yn ystod Gorffennaf i ail gais cynllunio i sefydlu pentre eco-gyfeillgar Lamas ger Crymych. Mae'r cynllun i sefydlu'r pentre' fydd a naw o fythynod wedi derbyn canmoliaeth uchel iawn gan Gomisiwn Dylunio Cymru. 'Ysbrydoledig' oedd un gair a ddefnyddiwyd.

## 'Popeth yn Wyrdd'

BYDD un o 'gyfresi gwyrdd' S4C yn cael ei darlledu yn ystod mis Mehefin. Yng ngeiriau'r Sianel: "Mae Ifor ap Glyn yn ôl ar y lôn er mwyn ein hannog i droi'r byd yn wyrddach. Yn y gyfres bedair rhan a gynhyrchir gan Gwmni Da, mae Ifor am ddefnyddio'i ffraethineb a'i hiwmor i dorri trwy'r jargon carbon.'

## Y Celtiaid yn holi am ddyfodol y Byd

BYDD Cynhadledd Flynyddol y Gyngres Geltaidd a gynhelir yn Aberystwyth yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr y chwech gwlad Geltaidd drafod eu polisiau amrywiol i warchod y Ddaear. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol yn y Gynhadledd a gynhelir yn Neuadd Pen Bryn, Prifysgol Aberystwyth, rhwng 28 Gorffennaf a 2 Awst. Y thema eleni yw: *Yr Amgylchedd Naturiol — tuag at ddyfodol Celtaidd cynaliadwy.* Am fwy o fanylion, gwelwch hysbyseb y gynhadledd ar dudalen 2, **Y Papur Gwyrdd**.

► Croesawn eitemau at Ddaear-iadur YPG. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Neu ffoniwch 01792 798162

# Cynhadledd Gymraeg Newid Hinsawdd



Gweinidog Amgylchedd Cymru, Jane Davidson, yn annerch y gynhadledd



WRTH annerch cynhadledd Gymraeg ar yr amgylchedd yn Llandrindod ar Ebrill 14, dywedodd Gweinidog Amgylchedd Cymru, Jane Davidson, fod newid hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf y mae'r byd yn eu hwynebu.

"Er y byddwn yn gofyn i bob un chwarae'i ran," meddai Ms Davidson, "rydym yn sylweddoli bod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad. Dyna pam rydym wedi pennu'r nod uchelgeisiol o gyflawni gostyngiadau blynyddol o 3% mewn nwyon tŷ gwydr mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig ar ôl 2011."

► OS am ddod i wybod mwy am adar, morfilod, dolffiniaid, llamhidyddion a daeareg Bae Ceredigion, does dim lle gwell i ymweld ag e na'r Ganolfan Bywyd Gwyllt Morol newydd a agorwyd yng Ngheinewydd ym mis Ebrill (ar y dde).





►PROSIECT arall a gwblhawyd yn ddiweddar yw'r Gwarchodfa Gwlyptiroedd a grewyd ar dir diffaith hen bwerdy trydan ger Casnewydd, Gwent (chwith). Dyma ffrwyth gwaith gwych gan y Cyngor Cefn Gwlad, yr RSPB a Chyngor Casnewydd.

# Protest Ffos-y-frân




*Côr Cochion Caerdydd yn arwain y rali gyda chanu soniarus a brwdfrydig*

**CYNHALIWYD protest arall ym Merthyr Tudful yn erbyn anfadwaith Safle Glo Brig Ffos-y-frân (gweler tud.5).**

**Gorymdeithiodd ugeiniau o bobl leol a'u cefnogwyr trwy'r dref i gynnal rali ar stepiau Neuadd Ddinesig Merthyr lle cafwyd areithiau grymus gan George Monbiot (ar y dde yn y llun), Jill Evans ASE y Blaid (canol), Gordon James (chwith), a Mike German o'r Rhyddfrydwyr Democrataidd.**

**Beirniadwyd Llywodraeth y Cynulliad yn hallt am roi caniatad i gynllun fydd yn niweidio'r gymuned a'r Ddaear.**



GREEN BEAN ORGANICS

Gwasanaeth Dosbarthu cynnyrch organig lleol i'ch cartref.

Yn arbenigo mewn blychau ffrwythau a llysiau, cigoedd organig lleol, cynnyrch organig Cymreig a llawer mwy!

www.greenbeanorganics.co.uk
01570 423523

Wedi'i hardystio (176P) yn werthwr cynnyrch organig ardystiedig.



Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur



# Matresi Organig gan Abaca

01269 598491
info@abacaorganic.co.uk

